- Mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, byddant yn gwerthuso prosiectau unigol ar gyfer cyllid a'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu gan gynnwys asesu addasrwydd y rheoliadau ariannol a rheoli sydd ar waith ar gyfer pob prosiect o'r fath.

- Monitro a chydlynu cynnydd a gwariant ar brosiectau unigol yn y Cynllun Gweithredu a gwerthuso ac adrodd ar ganlyniadau ac effeithiolrwydd y prosiectau
- Datblygu gweledigaeth a strategaeth er mwyn rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Ceisio cyllid ychwanegol gan yr holl ffynonellau i gynorthwyo gyda darpariaeth yr Amcanion a'r Cynllun Gweithredu.
- Darparu cyngor cynllunio a chyngor perthnasol i'r Cydbwyllgor ynglŷn â pholisïau a chynigion y Cynllun Datblygu ac ar gynigion datblygu sy'n effeithio ar AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi'i benodi fel yr Awdurdod Arweiniol o ddyddiad y Cytundeb, a bydd rôl yr Awdurdod Arweiniol yn cael ei chyflawni yn amodol ar gymeradwyaeth y Cydbwyllgor a bydd fel a ganlyn:-

- Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Arweiniol a nodwyd yn y Cytundeb
- Gweithredu ar ran y Cydbwyllgor pan fydd hyn yn cyflawni Gwerth Gorau neu'n ychwanegu gwerth i gyflawniad yr Amcanion neu berfformiad y Swyddogaethau neu pan fo'n briodol neu'n ddymunol gwneud hynny er mwyn denu neu dderbyn cyllid allanol neu adnoddau eraill gan ffynonellau tu hwnt i'r Awdurdodau.
- Cyflawni a darparu'r holl drefniadau cyfrifo bancio ac archwilio priodol a gwasanaethau sy'n ofynnol er mwyn derbyn, cynnal a chymhwyso arian y Cydbwyllgor.
- Bod yn bwynt cyswllt cyfreithiol gyda'r cyflenwyr ar gyfer yr holl gaffaeliadau ar y cyd
- Darparu adnoddau gweinyddol fel y bo'n briodol er mwyn galluogi'r Cydbwyllgor i gyflawni eu rolau, dyletswyddau a swyddogaethau perthnasol.
- Darparu ysgrifennydd ar gyfer unrhyw gyfarfodydd perthnasol y Cyrff Cysylltiedig.

Gall unrhyw Awdurdod dynnu'n ôl o'r Cydbwyllgor drwy roi dim llai na 18 mis o rybudd i'r Awdurdodau eraill ac Ysgrifennydd y Cydbwyllgor. Mae unrhyw Awdurdod sy'n dymuno tynnu'n ôl o'r Cydbwyllgor, fel rhan o amod tynnu'n ôl, yn gwneud taliad neu daliadau rhesymol sy'n adlewyrchu'r colledion a achoswyd neu a ddisgwylir o ganlyniad i dynnu'n ôl, fel sy'n briodol yn nhyb yr Awdurdodau eraill, ac fe adlewyrchir hyn yn amodau'r cytundeb.

5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Mae ffurfio strwythur gyfreithiol fel Cydbwyllgor a'i gytundeb gyfreithiol yn cefnogi holl agweddau cynllun rheoli'r AHNE.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd trefniadau llywodraethu'r Cydbwyllgor yn y dyfodol yn cael eu diwallu o fewn cyllidebau cyfredol ac mae cost sefydlu'r strwythur gyfreithiol wedi'i ddarparu'n fewnol gan dimau gyfreithiol mewnol y cynghorau perthnasol.

7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Dim angen.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Mae Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Wrecsam wedi arwyddo'r Cytundeb Gyfreithiol. Mae Moderneiddio Llywodraethu yn rhan o'r cytundeb. Mae'r cytundeb wedi cael ei graffu yn ôl yr angen gan bob awdurdod. Mae Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Dros Dro'r AHNE wedi cymeradwyo'r adolygiad o drefniadau llywodraethu.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd y cytundeb yn golygu gwell cynllunio ariannol a sefydlogrwydd i'r Cyd-bwyllgor AHNE tra'n sicrhau bod cyllidebau'n cael eu cymeradwyo'n flynyddol a fydd yn galluogi pob awdurdod sy'n aelod i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau ariannol. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Gyngor Sir Ddinbych yn gyffredinol gan y bydd y gefnogaeth ariannol, gyfreithiol a gweinyddol yn cael ei darparu o fewn strwythurau staffio sy'n bodoli'n barod.

10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dim wedi eu canfod. Mae'r cytundeb gyfreithiol yn nodi'r goblygiadau perthnasol ac yn darparu darpariaethau terfynu.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle gall Awdurdodau Lleol ddod i gytundeb i 'Gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill ar ffurf Cyd-bwyllgor'



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

**CYD-BWYLLGOR
ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cynhaliwyd ar:	14 Tachwedd 2014
Aelod /Swyddog Arweiniol:	Steve Gadd
Awdur yr Adroddiad:	Paula O'Hanlon /Huw Rees
Teitl:	Cyllideb y Cyd-bwyllgor 2014/15

1. Beth y mae'r adroddiad yn ymdrin ag o?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw yr AHNE fel y cytunwyd arno ar gyfer 2014/15.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol yr AHNE.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr aelodau i nodi'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2014/15 (Atodiad 1) a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni. Hefyd, i gymeradwyo'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2014/15 yn ffurfiol.

4. Manylion yr Adroddiad.

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw yr AHNE ar gyfer 2014/15 a nodir yn Atodiad 1. Cyllideb gwariant gros yr AHNE yw £406K. Rhagwelir gorwariant o £3k.

Fe gyflwynir y gyllideb mewn dwy ran; Craidd a Rhanbarthol. Mae'r gyllideb Graidd yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny, sef y swm lleiaf sy'n ofynnol yn bresennol i weithredu'r gweithgareddau AHNE yn ystod y flwyddyn gyfredol. *Fe all* y gyllideb amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar gyllid allanol a mewnol. Mae'r gyllideb Ardal yn ymwneud â gwariant er mwyn cyflawni prosiectau o fewn Awdurdodau Lleol

yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Gallai'r gyllideb gynnwys staff nad ydynt yn rhai craidd sy'n gweithio ar brosiectau penodol yn yr AHNE yn ystod y flwyddyn hon. *Bydd y gyllideb hon yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a hyd yn oed o fewn y flwyddyn yn dibynnu ar gynnydd y prosiect a ffynonellau cyllid.*

5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Bydd rheolaeth effeithiol ar gyllidebau refeniw yr AHNE yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau cynllun rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac yn tanategu gweithgaredd ym mhob maes, yn arbennig ein perthynas gyda phartneriaid cyllido a'n blaenoriaethau ar y cyd.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld bod y cyfraniadau incwm yn parhau i fod ar y lefel a gytunwyd yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn hon.

7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.

Amh

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Rhoddwyd gwybod i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol am y gyllideb ym mis Ebrill 2014. Dyma'r cyfle cyntaf i gyflwyno'r sefyllfa ariannol i'r Cyd-bwyllgor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2014/15. Er ei fod yn darogan gorwariant bychan ar hyn o bryd, mae ffydd y bydd camau rheoli yn galluogi'r gwasanaeth i wario o fewn eu swm a gyllidebwyd yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, er bod y sefyllfa ariannol ar gyfer 2014/15 yn ddiogel mae'n rhaid cydnabod bod cyllidebau'r holl gyrff yn y sector cyhoeddus yn dod o dan bwysau cynyddol oherwydd yr hinsawdd economaidd ac ni ellir dibynnu ar lefelau cyllid yn y dyfodol (gweler adran 10).

10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r gyllideb bresennol yn ddibynnol ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newidiadau i'r lefelau incwm hyn yn peri risg i gyflwyno prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Rheoli AHNE.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gofyn i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol.


CYDBWYLLGOR AHNE

Atodiad 1

(CYNGHORAU SIR DDINBYCH, SIR Y FFLINT A WRECSAM)

CRAIDD - CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW AR 30 MEDI, 2014

	Cyllideb 2014/15	Rhagolwg 2014/15
	£	£
GWARIANT		
<u>Gweithwyr</u>		
Cyflogau	194,483	185,397
Costau Gweithwyr eraill	1,544	1,544
Cyfanswm Costau Gweithwyr	<u>196,027</u>	<u>186,941</u>
<u>Cerbydau a Theithio</u>		
Costau Teithio	5,601	5,601
Costau Teithio Eraill	600	600
Cyfanswm Costau Cerbydau a Theithio	<u>6,201</u>	<u>6,201</u>
<u>Aral</u>		
Costau swyddfa	3,537	3,537
Cyfanswm Costau Arall	<u>3,537</u>	<u>3,537</u>
<u>Prosiectau</u>		
Grantiau	63,636	63,636
Cyfanswm Costau Prosiect	<u>63,636</u>	<u>63,636</u>
CYFANSWM GWARIANT	<u>269,401</u>	<u>260,315</u>
INCWM		
Grant Cyfoeth Naturiol Cymru	-103,847	-103,847
Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy	-63,636	-63,636
Cyngor Sir Ddinbych	-70,418	-70,418
Cyngor Sir y Fflint	-26,500	-26,500
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	-5,000	-5,000
CYFANSWM INCWM	<u>-269,401</u>	<u>-269,401</u>
Cyfanswm Gwariant Net	<u><u>0</u></u>	<u><u>-9,086</u></u>




CYDBWYLLGOR AHNE

Atodiad 1

(CYNGHORAU SIR DDINBYCH, SIR Y FLINT A WRECSAM)

ARDAL - CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW AR 30 MEDI, 2014

	Cyllideb 2014/15 £	Rhagolwg 2014/15 £
GWARIANT		
<u>Gweithwyr</u>		
Cyflogau	109,307	106,469
Costau Gweithwyr eraill	496	496
Cyfanswm Costau Gweithwyr	109,803	106,965
<u>Cerbydau a Theithio</u>		
Fflyd	21,821	21,821
Cyfanswm Costau Cerbydau a Theithio	21,821	21,821
<u>Arall</u>		
Costau swyddfa	69	1,000
Cyfanswm Costau Eraill	69	1,000
<u>Prosiectau</u>		
Cynllun Rheoli	5,000	8,500
Prosiectau AHNE		1,576
Cyfanswm Costau Prosiect	5,000	10,076
CYFANSWM GWARIANT	136,693	139,862
INCWM		
Grant Cyfoeth Naturiol Cymru	-12,538	-12,538
Cyngor Sir Ddinbych	-124,155	-113,808
Arian Cyfatebol Prosiectau Cyngor Sir Ddinbych		-1,576
CYFANSWM INCWM	-136,693	-127,922
Cyfanswm Gwariant Net	0	11,940





**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

**CYD-BWYLLGOR
ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cynhaliwyd ar: 14 Tachwedd 2014
Aelod/Swyddog Arweiniol: Howard Sutcliffe
Awdur yr Adroddiad: Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE

**Teitl: Penodi Partneriaeth a Chyrff Cysylltiol ar gyfer Ardal o Harddwch
Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â chwblhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cytundeb Cyfreithiol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Y rheswm dros lunio'r adroddiad yw bod y Cyd-bwyllgor (CB) angen cymeradwyo olynnydd i'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Interim AHNE (CBI) gyda'r Bartneriaeth AHNE (Grŵp Budd-ddeiliaid) a Fforymau cysylltiol, yn unol â'r Cytundeb Cyfreithiol. Mae proses penodi'r bartneriaeth angen bod yn amodol ar gadarnhad gan is-grŵp o'r CB.

Mae Swyddogion AHNE hefyd angen trefnu dyddiad Fforwm Blynyddol a Chyfarfod Cyngor Tref a Chymuned Blynyddol. Mae'r Cyd-bwyllgor angen cymeradwyo dyddiadau ar gyfer yr uchod.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r Cyd-bwyllgor yn archwilio a chefnogi'r uchod ac yn:

- Penodi is-grŵp ar gyfer penodi'r Bartneriaeth.
- Awdurdodi'r is-grŵp i benodi'r Bartneriaeth AHNE
- Cadarnhau'r dyddiad ar gyfer y Fforwm AHNE a chyfarfod y Cyngor Tref a Chymuned
- Pa un a yw'r CB yn dymuno estyn gwahoddiad i Aelodau CC AHNE i Gyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned.

4. Manylion yr Adroddiad

Yn ei hanfod mae'r Bartneriaeth AHNE yn disodli'r CBYI wrth benodi ei aelodau. Mae'r CBYI ers 2011, a'i ragflaenydd y CBY wedi bodoli ers 27 mlynedd, ac er iddo fod yn sefydliad effeithiol a phoblogaidd iawn, fel gyda phob sefydliad mae angen ei foderneiddio a'i adfywio i adlewyrchu rheolaeth bresennol yr AHNE a'i flaenoriaethau. Wrth ffurfio'r CB mae'n gyfle perffaith i foderneiddio.

O dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 gosodwyd dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynlluniau Rheoli AHNE, mae'r Cynigion Llywodraethu newydd yn adlewyrchu hyn. Mae daearyddiaeth newidiol yr AHNE yn cael ei adlewyrchu gan fod y mwyafrif o'r boblogaeth bellach wedi'u lleoli yn nhrefi Corwen a Llangollen.

Bydd y Bartneriaeth yn darparu cyngor i'r CB trwy ddod â phrif ddiddordebau ynghyd i ystyried a rhoi cyngor ar bob agwedd o'r AHNE.

Rhestr o aelodau Partneriaeth AHNE a benodwyd am 4 blynedd	
Cynrychiolwyr AHNE eang (wedi eu dethol gan is-grŵp yr awdurdod lleol)	<ul style="list-style-type: none"> • 9 aelod awdurdod lleol (3 o bob Cyngor fel yr enwebwyd gan eu Cyngor priodol • 3 diddordeb rheoli tir • 2 ddiddordeb cymuned wledig • 2 ddiddordeb cymuned drefol • 1 diddordeb busnes
Cynrychiolydd blaenoriaethau Cynllun Rheoli (dethol gan is-grŵp yr awdurdod lleol) <i>Blaenoriaethau cynllun rheoli cyfredol wedi eu dangos</i>	<ul style="list-style-type: none"> • 1 Tirwedd • 1 Naturiol • 1 Hanesyddol • 1 Mynediad a Hamdden • 1 Amgylchedd Adeiledig
Cynrychiolwyr Diddordeb Arbennig (dethol gan yr awdurdodau lleol) Dim mwy na 9 mlynedd o wasanaeth olynol ¹	<ul style="list-style-type: none"> • 3 unigolyn neu sefydliad
Wrth wneud y penodiadau, bydd yr awdurdodau lleol yn sicrhau bod yna gynrychiolaeth o Safle Treftadaeth y Byd	

Mae Fforwm Blynyddol AHNE yn wahoddiad blynyddol agored i ystod eang o ddiddordebau. Bydd presenoldeb yn ôl gwahoddiad agored. Mae'r Fforwm yn gyfle i drafod agweddau o Reoli AHNE a phrif faterion sy'n effeithio ar AHNE.

Bydd cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref a Chymuned AHNE yn cael ei gynnal yn flynyddol i drafod blaenoriaethau a materion. Mae'r swyddog AHNE yn ystyried y byddai hefyd yn werth gwahodd aelodau o'r Awdurdod Lleol i'r cyfarfod (fodd bynnag nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Cyfreithiol a dylid ei gadarnhau gan y CB)

5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Nid yw'r Cynllun AHNE 2009-14 presennol yn ystyried y mater hwn; y rheswm dros adolygu rheolaeth yw oherwydd ehangiad yr AHNE yn 2011. Fodd bynnag, mae'r trefniadau rheoli newydd yn darparu dull tryloyw ar gyfer rheoli'r AHNE. Maent yn cyflawni'r dyletswyddau a fanylwyd yn y Cytundeb Cyfreithiol. Mae hefyd yn dwyn ynghyd amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid â diddordeb yn yr AHNE.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd rheolaeth a chyfarfodydd yn cael eu diwallu o fewn cyllidebau presennol.

7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Eitem 6 (Atodiad 1)

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Mae Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Wrecsam wedi arwyddo'r Cytundeb Cyfreithiol. Mae Moderneiddio Llywodraethu yn rhan o'r cytundeb. Mae'r cytundeb wedi cael ei graffu yn ôl yr angen gan bob awdurdod. Mae Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Interim yr AHNE wedi cymeradwyo adolygiad o drefniadau llywodraethu.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd y cytundeb yn golygu gwell cynllunio ariannol a sefydlogrwydd i'r Cyd-bwyllgor AHNE tra'n sicrhau bod cyllidebau'n cael eu cymeradwyo'n flynyddol a fydd yn galluogi pob awdurdod sy'n aelod i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau ariannol. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Gyngor Sir Ddinbych yn gyffredinol gan y bydd y gefnogaeth ariannol, gyfreithiol a gweinyddol yn cael ei darparu o fewn strwythurau staffio sy'n bodoli'n barod.

10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- **Ariannol** – Mae'r risg yn isel; mae'r Pwyllgor CBYI wedi buddsoddi llawer o amser gwirfoddol yn trafod gwell atebolrwydd a llywodraethu.
- **Enw da** – Mae sefydlu Partneriaeth a chyrrff cysylltiol AHNE yn cwblhau'r adolygiad Llywodraethu. Mae hefyd yn dangos y gall yr Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid weithio mewn modd strwythuredig a chydweithredol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r sail gyfreithiol yn Adran 101(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle gall Awdurdodau Lleol ddod i gytundeb i 'Gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill ar ffurf Cyd-bwyllgor'

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cynnig i greu Partneriaeth AHNE ar gyfer
Bryniau Clwyd ac Ardal o Harddwch
Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer Dyffryn
Dyfrdwy
14 Tachwedd 2014

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Cynnig i greu Partneriaeth AHNE

Cyswllt: Howard Sutcliffe Swyddog AHNE

Diweddarwyd: 16 Hydref 2014

1. Pa fath o gynnig sy'n cael ei asesu?

Arall

2. Disgrifiwch bwrpas y cynnig hwn

Mae hwn yn gynnig i foderneiddio strwythur llywodraethol yr AHNE ehangach.

3. A yw'r cynnig hwn yn gofyn am asesiad o effaith ar gydraddoldeb llawn?

(Cyfeiriwch at adran 1 yn y pecyn cymorth uchod am arweiniad)

Na

4. Rhowch grynodedb o'r camau a gymerwyd, a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i wneud yr asesiad hwn, gan gynnwys unrhyw ymgysylltiad a wnaed

(Cyfeiriwch at adran 1 yn y pecyn cymorth uchod am arweiniad)

Mae hwn yn gynnig ar gyfer moderneiddio strwythur llywodraethol yr AHNE. Mae Cytundeb Cyfreithiol yr AHNE yn dirprwyo cyfrifoldeb rheoli AHNE o'r tri Chyngor Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam i Gydbwyllgor (wedi cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb eisoes). Mae'r Gydbwyllgor nawr yn ffurfio Partneriaeth AHNE (Grŵp Budd-ddeiliaid) a Fforymau cefnogol. Bydd pob cyfarfod/adeilad yn hygyrch, bydd y Tîm AHNE yn darparu cefnogaeth lawn i'w aelodau a'r cyhoedd.

5. A fydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig?

(Cyfeiriwch at adran 1 yn y pecyn cymorth am ddisgrifiad o'r nodweddion gwarchodedig)

Na, mae'r cynnig yn niwtral.

6. A fydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig?

Na

7. A yw'r cynnig wedi cael ei newid i ddileu neu leihau unrhyw effeithiau negyddol posibl?

Na	Ni fu hyn yn angenrheidiol, gan na nodwyd unrhyw effaith negyddol posibl.
----	---

8. Ydych chi wedi nodi unrhyw gamau gweithredu pellach i fynd i'r afael a/neu fonitro unrhyw effaith/effeithiau negyddol posibl?

Do	Fel y trafodwyd yn gynharach, ni nodwyd unrhyw effaith negyddol posibl. Fodd bynnag, bydd union effaith y cynnig yn cael ei adolygu ar ôl gweithredu i weld a ellir dysgu unrhyw wersi.
----	---

Cam(au)	Perchennog	Dyddiad:
Dim		

9. Datganiad

Mae pob ymdrech rhesymol wedi'i wneud i ddileu neu leihau unrhyw effaith anghymesur posibl ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Bydd union effaith y cynnig yn cael ei adolygu ar yr adeg briodol.

Dyddiad Adolygu:	16/10/14
------------------	----------

Enw'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Asesu Effaith ar Gydraddoldeb	Dyddiad:
Howard Sutcliffe	16/10/14

Nodwch y bydd angen i chi gyhoeddi canlyniad yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb os byddwch yn nodi effaith debygol sylweddol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

**CYD-BWYLLGOR
ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN
DYFRDWY**

Cynhaliwyd ar:	14 Tachwedd 2014
Aelod /Swyddog Arweiniol:	Howard Sutcliffe
Awdur yr Adroddiad:	Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE
Teitl:	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

1. Beth mae'r adroddiad yn ymdrin ag o?

Mae'r Swyddog AHNE a Swyddog Cyfreithiol yn teimlo y byddai Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol o fudd i'r Cyd-bwyllgor. Bwriad yr adroddiad hwn yw annog aelodau, cyn y cyfarfod, i ystyried y meysydd gwaith y dyfodol y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ei flaenoriaethau arno yn y blynyddoedd i ddod.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r mwyafrif o Bwyllgorau eraill yn llunio Rhaglen Waith i'r Dyfodol, ac efallai y bydd yr Aelodau'n cytuno yn hytrach na chael dull adweithiol, dylid trafod ac ystyried strategaeth ragweithiol amgen.

Gobeithir y bydd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn:

- Cynyddu gwybodaeth yr aelodau
- Caniatáu i aelodau i osod blaenoriaethau
- Rhoi rhybudd ymlaen llaw o bwysau cyllidebol
- Codi safonau

3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Cyd-bwyllgor yn trafod ac yn mabwysiadu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.
- Cael eitem safonol ar yr agenda o 'Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol'

4. Manylion yr Adroddiad.

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol			
Prosiect	Manylion/Cyfeirnod Cynllun Rheoli	Amserlen	Cost -ve neu +ve neu niwtral (Trwy gyllidebau presennol ac allanol)
Cynlluniau Strategol 2014-16			
Cynllun Rheoli AHNE	Cefnogi Polisiâu yr AHNE trwy gyfrannu i ymgynghoriadau. I weithredu Cynllun Gweithredu AHNE	Gwanwyn 2015	Niwtral
Strategaeth Twristiaeth AHNE	I weithredu'r Cynllun Gweithredu	Hydref 2014	Niwtral
Strategaeth Twristiaeth Ederynion	I weithredu'r Cynllun Gweithredu	Gwanwyn 2015	Niwtral
Rhaglen Newid Hinsawdd	Gweithredu a hyrwyddo'r deunydd darllen newydd	Hydref 2014	Niwtral
Strategaeth allgymorth a gwirfoddolwyr	Darparu datganiad polisi, cynllun ymgysylltu a chynllun gweithredu	Gwanwyn 2015	Niwtral
Cynllun Busnes	Llunio cynllun busnes pum mlynedd	Gwanwyn 2015	Niwtral
Eiconau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol			
Safle Treftadaeth y Byd	Cydweithio rhwng y ddau ddynodiad	Hydref 2014	Niwtral
Sefydliadau Adran 85			
Cynllunio	Llunio CCA ar gyfer yr AHNE	Hydref 2015	-ve
Llonyddwch	Ymchwilio i welliannau i Awyr Dywyll	Hydref 2015	-ve
Trefoli	I ymrwymo i gytundeb gydag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Ddwyrain Cymru a'r ALI Priffyrdd i barchu natur wledig yr AHNE	Hydref 2015	-ve
Twristiaeth	Ymchwilio sut orau i integreiddio brandiau Gogledd Ddwyrain Cymru a'r AHNE	Hydref 2015	Croeso Cymru E4G

5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Bydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cysylltu yn ôl i weithredoedd, amcanion a pholisiâu o Gynllun Rheoli AHNE

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae hon yn rhaglen ddangosol, mewn rhai amgylchiadau gall arbed arian i'r awdurdodau lleol. Nid oes unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn

7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.

Caiff pob maes o'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ei Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei hun, caiff Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ei ystyried ar yr adeg honno.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Ystyrir bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn raglen waith strategol ac uchelgeisiol ar hyn o bryd. Bydd angen ymgynghori pellach i wneud y rhaglen ddigwydd. Caiff costau ac arbedion yn y dyfodol eu cyflwyno i'r cyd-bwyllgor gyda phob gweithred unigol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r rhaglen uchelgeisiol hon.

10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Enw da- Mae hefyd yn dangos y gall yr Awdurdodau Lleol a'u partneriaid weithio mewn modd strwythuredig a chydweithredol. Mae'n cydnabod bod yr Awdurdodau Lleol yn rheoli'r Tirwedd Cenedlaethol mewn ffordd strwythuredig a strategol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r sail gyfreithiol yn Adran 101 (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle y gall Awdurdodau Lleol ddod i gytundeb i 'Gyflawn swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol ar ffurf Cyd-bwyllgor'

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag